Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

Ysgol Gynradd Cefneithin
Heol y Parc
Cefneithin
Llanelli
Sir Caerfyrddin
SA14 7DE

Rhif yr Ysgol: 6692000

Dyddiad yr Arolygiad: 28 Ebrill 2009

gan

Dorothy Morris
16211

Dyddiad Cyhoeddi: 2 Gorffennaf 2009

O dan rif contract Estyn: 1121008

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i categorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Cefneithin fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Cefneithin rhwng 27 a 29 Ebrill, 2009 gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Dorothy Morris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol.**

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	7
Safonau	7
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	7
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	10
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	10
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	12
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	15
Arweinyddiaeth a rheolaeth	17
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	17
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	18
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	19
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	20
Cymraeg iaith cyntaf	20
Mathemateg	21
Dylunio a thechnoleg	22
Daearyddiaeth	23
Cerddoriaeth	24
Addysg gorfforol	25
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	26
Atodiadau	27
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	27
2 Data a dangosyddion ysgol	27
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	28
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	28
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	29

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Ysgol gynradd gymunedol a gynhelir gan Awdurdod Unedig (AU) Caerfyrddin yw Ysgol Cefneithin. Lleolir yr ysgol yng nghanol y pentref a gwasanaetha'r pentref ei hun a'r ardal wledig gyfagos. Derbynnir plant i'r ysgol ar ddechrau'r tymor y maent yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 59 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae'r niferoedd wedi gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf, yn unol â thueddiadau lleol.
2. Yn ôl yr ysgol, nid yw'r ardal at ei gilydd yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae gan 12% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim; canran sy'n is na'r ffigurau lleol a chenedlaethol.
3. Derbynnir disgyblion o'r holl ystod gallu. Dynodir 14 (24%) o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig (AAA), yn cynnwys un disgybl ar ddatganiad o AAA; canran sy'n uwch na'r ffigurau sirol a chenedlaethol.
4. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y dosbarth derbyn ac yng nghyfnod allweddol 1. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Daw 67% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith.
5. Yn y flwyddyn 2008-09, dyfarnwyd Marc Safon yr Asiantaeth Medrau Sylfaenol i'r ysgol am y trydydd tro. Mae hefyd wedi ennill Gwobr Ysgolion Eco ac mae'n rhan o gynllun Ysgolion Iach yr AU.
6. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2003 ac mae newidiadau sylweddol wedi bod ymhlith y staff addysgu a chynorthwyol ers hynny. Yn y ddwy flynedd yn arwain i fyny at yr arolygiad, gwelwyd cyfnod hir o ansefydlogrwydd o ran staffio yng nghyfnod allweddol 1. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Mehefin 2003.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Prif amcan yr ysgol yw creu ysgol ag awyrgylch hapus er mwyn hybu datblygiad meddyliol, emosiynol, cymdeithasol, moesol ac ysbrydol y disgyblion hyd eithaf eu gallu.
8. Mae prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2008-9 yn cynnwys:
   - codi safonau llythrennedd y disgyblion;
   - parhau i ddatblygu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion;
   - annog disgyblion i ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu;
   - gweithredu'r Cyfnod Sylfaen;
   - datblygu'r 'Cynllun Ysgolion Iach'.

Crynodeb

9. Mae i Ysgol Cefneithin nifer o nodweddion da. Ers yr arolygiad diwethaf, llwyddwyd i gynnal y safonau da yn y rhan fwyaf o'r pynciau a arolygwyd, a gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgol ymhellach mewn nifer o feysydd. Mae nodweddion rhagorol i ystod a natur y profiadau dysgu a ddarperir ar draws y cwricwlwm.

10. Mae'r adroddiad hunan arfarnu, a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad, yn gynhwysfawr a chlir, a dynoda gryfderau a meysydd lle mae angen gwelliant. Cytunodd y tîm arolygu gyda dyfarniadau'r ysgol yn y saith cwestiwn allweddol.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

11. Arfarnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn Allweddol		**Gradd arolygu**
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

Safonau

12. At ei gilydd, mae'r addysg a ddarperir yn diwallu ystod anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag AAA, yn gwneud cynnydd cyson wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd a llwyddant i gyflawni'r targedau a nodau dysgu cytunedig ar eu cyfer.

13. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
12%	76%	12%	0%	0%

14. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n ffafriol â chanfyddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ar gyfer 2007-2008, sy'n datgan bod safonau yn dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o wersi ac yn rhagorol (Gradd 1) mewn 12% o wersi.

15. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd

16. Mae'r safonau yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 3	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 1	Gradd 1
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Cerdd	Gradd 2	Gradd 2
Addysg Gorfforol	Gradd 2	Gradd 2

17. Yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) dros y tair blynedd diwethaf, mae nifer y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn amrywio dipyn ac yn is na deg yn y mwyafrif o'r blynyddoedd, ac o'r herwydd nid yw cymariaethau cenedlaethol a sirol yn ddilys bob amser.

18. Yn 2008, roedd cyraeddiadau disgyblion yn asesiadau'r CC yn CA1, yn ôl asesiadau athrawon, yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol mewn Cymraeg a mathemateg, yn debyg i'r cyfartaleddau sirol ond yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn gwyddoniaeth. O'u cymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae cyraeddiadau'r disgyblion yn ei rhoi yn y 25% isaf. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn anwastad ac yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% isaf o ysgolion tebyg.

19. Yn 2008, roedd cyraeddiadau disgyblion yn asesiadau'r CC yn CA2, yn ôl asesiadau athrawon, yn uwch na chyfartaleddau'r sir a'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae cyraeddiadau'r disgyblion yn y Gymraeg yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru, ar sail nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae cyraeddiadau disgyblion ar y cyfan yn amrywio o'r 25% uchaf i'r 25% isaf.

20. Yn y blynyddoedd diweddar, gwelwyd gwelliant parhaus yng nghynnydd disgyblion erbyn diwedd CA2 gyda disgyblion yn cyflawni, ac ar adegau, yn rhagori ar eu targedau. Yn CA1, mae cynnydd y disgyblion o'r cyfnod derbyn yn anwastad. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.

21. At ei gilydd, gwna'r plant dan bump oed gynnydd da ym medrau allweddol meddwl, cyfathrebu, rhifedd, a TGCh. Mae eu medrau creadigol a'u gallu i ganfod atebion i broblemau hefyd yn datblygu'n gyson.

22. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yn safonau a chynnydd disgyblion ym medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Gwna'r disgyblion ddefnydd pwrpasol o'r medrau yma yn eu gwaith mewn nifer o bynciau ac yn yr arfer orau maent yn defnyddio'u medrau yn fwy annibynnol i wella eu dysgu eu hunain. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn ymestyn y medrau hyn yn gynyddol ar draws y cyfnodau allweddol.

23. At ei gilydd, mae safonau disgyblion yn eu hyfedredd dwyieithog yn dangos cynnydd cyson. Erbyn diwedd CA2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

24. Mae gan y disgyblion dargedau gwelliant addas i ymgyrraedd atynt. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i arfarnu eu gwaith ac i ddynodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Mae hyn yn faes sydd wedi ei ddynodi'n briodol ar gyfer sylw yng nghynllun datblygu'r ysgol (CDY).

25. Trwy'r ysgol, dengys y disgyblion gynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol. Cydweithiant yn effeithiol mewn parau a grwpiau bychain a chroesawant ymwelwyr yn gynnes i'w hysgol.

26. Mae agweddau disgyblion tuag at eu dysgu a'r diddordeb a ddangosant yn eu gwaith yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n galed mewn gwersi ac yn barod i ymuno yn yr ystod o weithgareddau a ddarperir. Gwnânt gynnydd cyson tuag at gyrraedd eu potensial ac maent yn barod ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

27. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae medrau dysgu'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol a gwelir cynnydd da yn eu medrau datrys problemau. Mae nodweddion rhagorol i ddatblygiad eu medrau creadigol mewn meysydd megis celf a dylunio, a cherddoriaeth.

28. Mae datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Trwy weithgareddau amser cylch a'r cyngor ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu gwerthoedd moesol a chymdeithasol cadarn. Arddangosant ystyriaeth am eraill sydd yn llai ffodus na nhw a chasglant symiau o arian at achosion da.

29. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn datblygu'n dda ac mae ganddynt barch at yr amrywiol gredoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a geir mewn cymdeithas. Mae gwybodaeth dda ganddynt am ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

30. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn ac yn nodwedd ragorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r strategaethau rheoli ymddygiad sy'n cael eu mabwysiadu gan yr ysgol.

31. Mae lefelau presenoldeb y disgyblion yn dda. Ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad, 94.8% oedd canran y presenoldeb ar gyfartaledd. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn brydlon ar ddechrau'r dydd.

32. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am fywyd cymunedol eu hardal a chyfrannant yn rheolaidd at achlysuron lleol. Trwy ymweliadau addysgol a chyfraniad ymwelwyr o'r gymuned i gwricwlwm yr ysgol, mae ganddynt hefyd ymwybyddiaeth sicr o fyd gwaith yn eu hardal.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

33. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
12%	82%	6%	0%	0%

34. Mae'r canran uchod o wersi sy'n Radd 1 a Gradd 2 at ei gilydd yn uwch na chanfyddiadau yr arolygiad blaenorol. Maent hefyd yn uwch na'r canfyddiadau cenedlaethol yn Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer 2007-8 sy'n nodi bod ansawdd yr addysgu yn Radd 1 neu'n Radd 2 at ei gilydd mewn 83% o wersi a arolygwyd. Fodd bynnag, mae'r canran o wersi Gradd 1 a welwyd yn is na'r canfyddiadau cenedlaethol o 16 % o wersi.

35. Mae nodweddion da a rhagorol yr addysgu yn cynnwys disgwyliadau uchel, addysgu bywiog, gweithgareddau heriol, a chydweithio effeithiol rhwng athro a disgybl. Pan fydd rhai diffygion yn yr addysgu, mae'r gweithgareddau yn parhau yn rhy hir i ateb oed a gallu'r disgyblion.

36. Yn yr arfer orau, mae cynllunio'r athrawon yn rhoi sylw da i anghenion dysgu disgyblion mewn dosbarthiadau o oed a gallu cymysg. Nid yw'r drefn yn ddigon cyson ar draws y gwersi.

37. Mae nodweddion da i ansawdd asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd y disgyblion. Asesir cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd. At ei gilydd, mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da, ac mae rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rheolaidd i ymweld â'r ysgol i drafod cynnydd eu plant.

38. Mae nodweddion rhagorol i ystod a natur y profiadau dysgu a gynigir i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig mynediad cyfartal i gwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog sy'n cydymffurfio gyda'r gofynion statudol. Ceir polisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer datblygu'r medrau allweddol ar draws y cwricwlwm ac mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau meddwl y disgyblion. Er hyn, nid yw'r cynllunio bob amser yn ddigon manwl er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad cyson yn y medrau.

39. Cyfoethogir profiadau dysgu'r disgyblion ymhellach gan nifer sylweddol o weithgareddau allgyrsiol, a chysylltiadau gwerthfawr yn lleol ac ar raddfa ehangach. Mae nodweddion rhagorol i bartneriaethau'r ysgol â rhieni, y gymuned leol, ysgolion ac asiantaethau gwahanol. Mae'r cysylltiadau cryf sydd rhwng yr ysgol ag ysgolion yn Ne Iwerddon a Denmarc, er enghraifft, yn ffynhonnell sy'n darparu profiadau o safon uchel i'r disgyblion.

40. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae'r weithred addoli ar y cyd feunyddiol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion, eu dealltwriaeth o faterion moesol ac yn hybu parch tuag at y bobl o'u cwmpas a'r amgylchedd.

41. Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech dda i weithredu mewn modd cynaliadwy. Mae pwyslais cryf ar addysg iechyd, ac mae hybu ffordd iachach o fyw yn treiddio trwy'r cwricwlwm ac yn amlwg yn yr arferion beunyddiol.

42. Mae hon yn ysgol gynhwysol. Mae hyn yn adlewyrchu nodweddion da y gofal bugeiliol, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd sy'n cael eu cynnig i'r holl ddisgyblion. Rhydd sylw da i les disgyblion. Mae polisïau a gweithdrefnau clir sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, gan gynnwys atal tân, addysg rhyw, a chymorth cyntaf yn cael eu rhoi ar waith yn ofalus. Cynhelir asesiadau risg priodol er mwyn sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn ddiogel, a chyn unrhyw ymweliadau ysgol. Mae

polisi addas ar gyfer amddiffyn plant ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'i gyfarwyddyd.

43. Mae nodweddion da i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. Mewn dosbarthiadau ac yn ystod sesiynau tynnu allan, mae athrawon a staff cynnal profiadol yn cynnig cymorth da i ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Côd Ymarfer a gwna disgyblion ag AAA gynnydd da sy'n gymesur â'u gallu a chyfnod eu datblygiad.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

44. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y pennaeth yn dda ac yn cynnig cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Mae ei hymrwymiad cryf i addysg plant ac i wella safonau yn amlwg i staff, llywodraethwyr a rhieni ac yn cael ei adlewyrchu'n dda yng ngwaith yr ysgol. Mae pob aelod o'r staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm er mwyn hybu datblygiad a chyflawniadau addysgol y disgyblion. Mae hwn yn gryfder.

45. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn, yn wybodus ac yn cyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol. Mae gan yr aelodau adnabyddiaeth dda o anghenion cyfredol yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at brosesau cynllunio a monitro. Mae aelodau yn ymweld â'r ysgol i drafod ac i arsylwi ar agweddau ar y ddarpariaeth ac yn adrodd yn ôl i'r corff llawn.

46. Mae'r CDY yn pennu blaenoriaethau addas ac yn darparu agenda berthnasol ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen. Mae cyllideb yr ysgol yn adlewyrchu'r prif dargedau ar gyfer gwariant.

47. Mae'r gweithdrefnau monitro a gwerthuso presennol yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i'r ysgol ar ansawdd ei darpariaeth addysgol a safonau cyflawniad.

48. At ei gilydd, mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i'r rhan fwyaf o'r materion allweddol yn adroddiad yr arolygiad blaenorol. Mae safonau daearyddiaeth wedi codi, datblygwyd gweithdrefnau monitro gan sicrhau bod y canlyniadau yn bwydo'r CDY, a chynlluniwyd rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Nid yw safonau Cymraeg wedi gwella'n ddigonol ac erys yr angen i gryfhau rhai agweddau ar ddatblygiad y medrau allweddol ymhellach.

49. Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n dda. Mae cyflenwad da o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau a phrofiad addas i gyflawni gwaith yr ysgol. Mae'r rhain wedi'i lleoli'n effeithiol a derbyniant gyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach.

50. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ac fe'u defnyddir yn effeithiol i hwyluso'r addysgu a'r dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol, y gymuned a safleoedd addysgol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae'r pennaeth, y swyddog ariannol a'r llywodraethwyr yn adolygu'r defnydd o adnoddau yn rheolaidd a chynigia'r ysgol werth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:

A1 godi safonau'r Gymraeg yn y ddau gyfnod allweddol;*

A2 adeiladu ar yr arfer dda er mwyn cryfhau medrau sylfaenol a medrau allweddol y disgyblion ymhellach;

A3 ledaenu nodweddion da y cynllunio tymor byr er mwyn cwrdd yn gyson ag ystod anghenion dysgu'r disgyblion mewn dosbarthiadau o oed a gallu cymysg, a

A4 chynnwys y disgyblion yn fwy yn asesu eu cynnydd a'u datblygiad eu hunain;*

** Cyfeirir at y materion yma yn y cynllun datblygu ysgol cyfredol.*

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

51. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

52. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd a llwyddant i gyflawni'r targedau a'r nodau dysgu cytunedig. Maent yn llwyddo beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol neu ieithyddol.

53. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
12%	76%	12%	0%	0%

54. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n ffafriol â chanfyddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf PAEM ar gyfer 2007-2008, sy'n datgan bod safonau yn dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o wersi ac yn rhagorol (Gradd 1) mewn 12% o wersi.

55. Mae safonau cyflawniad disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 3	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 1	Gradd 1
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Cerdd	Gradd 2	Gradd 2
Addysg Gorfforol	Gradd 2	Gradd 2

56. Yn asesiadau'r CC dros y tair blynedd diwethaf, mae nifer y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn amrywio'n sylweddol ac o'r herwydd nid yw cymariaethau cenedlaethol a sirol yn ddilys bob amser. At ei gilydd, llwyddodd y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol i gyrraedd y lefelau disgwyliedig ac nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.

57. Yn 2008, roedd cyraeddiadau disgyblion yn asesiadau'r CC yn CA1, yn ôl asesiadau athrawon, yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol mewn Cymraeg a mathemateg ac yn debyg i'r cyfartaleddau sirol, ond yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn gwyddoniaeth. Roedd canran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r lefel uwch sef lefel 3 yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ym mhob pwnc. O'u cymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd cyraeddiadau'r disgyblion ym mathemateg yn y 50% uchaf, ac yn y 25% isaf yn y Gymraeg a gwyddoniaeth. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyraeddiadau'r disgyblion at ei gilydd yn anwastad ac yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% isaf o ysgolion tebyg.

58. Yn 2008, roedd cyraeddiadau disgyblion yn asesiadau'r CC yn CA2, yn ôl asesiadau athrawon, yn uwch na chyfartaleddau'r sir a'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd cyraeddiadau'r disgyblion yn y Gymraeg yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru, ar sail nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd cyraeddiadau'r disgyblion yn Saesneg a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf ac yn y 50% uchaf yn y Gymraeg a mathemateg. Mae cyraeddiadau'r disgyblion at ei gilydd dros y tair blynedd diwethaf yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

59. Erbyn diwedd CA2, gwelir cynnydd amlwg yn safonau cyrhaeddiad y disgyblion. Yn y blynyddoedd diweddar, gwelwyd gwelliant parhaus yng nghanlyniadau'r ysgol wrth i ddisgyblion gyflawni, a rhagori ar adegau, ar eu targedau. Mae dadansoddiad o ddata asesiadau'r CC yn dangos bod canran y disgyblion Blwyddyn 6 (B6) sy'n cyflawni lefelau 4/5 yn dangos cynnydd da o gymharu â'u canlyniadau pan oeddent ym mlwyddyn 2. Yn CA1, mae cynnydd y disgyblion o'r cyfnod derbyn yn anwastad. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.

60. At ei gilydd, gwna'r plant dan bump oed gynnydd da ym medrau allweddol meddwl, cyfathrebu, rhifedd, a TGCh. Mae eu medrau creadigol a'u gallu i ganfod atebion i broblemau hefyd yn datblygu'n gyson.

61. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion yn safonau a chynnydd y disgyblion ym medrau meddwl, cyfathrebu, rhif a TGCh ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, nid yw'r disgyblion yn ymestyn y medrau hyn yn gynyddol ar draws y cyfnodau allweddol.

62. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safonau disgyblion ym medrau cyfathrebu Cymraeg ar draws y cwricwlwm yn anwastad. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae ychydig o'r disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn rhugl wrth drafod eu gwaith. Mae lleiafrif o'r disgyblion, fodd bynnag, yn dangos gafael ansicr ar batrymau iaith a'r eirfa berthnasol i gyfathrebu'n eglur ar lafar. Gwna'r disgyblion ddefnydd addas o'u medrau darllen i ddod o hyd i wybodaeth a gall y disgyblion hŷn

gofnodi eu gwaith yn briodol. Er hyn, nid oes gan leiafrif sylweddol o'r disgyblion afael ddigonol ar gystrawen a phatrymau sillafu cywir, a phrin yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. Yn CA2, gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol o'u medrau Saesneg yn eu gwaith mewn pynciau megis dylunio a thechnoleg.

63. Yn y ddau gyfnod allweddol, defnyddia'r disgyblion eu medrau TGCh yn hyderus i gasglu gwybodaeth, ac i drin a chofnodi eu gwaith mewn nifer o agweddau ar y cwricwlwm. Mae safonau'n dda ar y cyfan. Defnyddia'r disgyblion eu medrau rhif yn effeithiol i ymgymryd â thasgau ar draws y pynciau. Yn eu hastudiaeth o barc busnes lleol, er enghraifft, gwna'r disgyblion hynaf ddefnydd da o'u medrau i ddadansoddi a chyflwyno canlyniadau eu hymwychliadau ar ffurf graffiau a thablau.

64. At ei gilydd, mae safonau disgyblion yn eu hyfedredd dwyieithog yn dangos cynnydd cyson. Erbyn diwedd CA2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

65. At ei gilydd, mae medrau dysgu'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mewn pynciau, megis dylunio a thechnoleg, a chelf a dylunio, dengys y disgyblion fedrau datrys problemau a medrau ymchwilio da iawn. Mae'r disgyblion yn datblygu'r gallu a'r hyder i weithio'n annibynnol ar eu tasgau. Mae disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud defnydd effeithiol iawn o fedrau meddwl mewn agweddau ar eu gwaith mewn pynciau megis mathemateg. Mae nodweddion rhagorol i agweddau ar ddatblygiad medrau creadigol y disgyblion mewn celf a dylunio, a cherddoriaeth.

66. Mae datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Trwy'r cwricwlwm, amser cylch a gweithgareddau'r cyngor ysgol, mae disgyblion yn caffael dealltwriaeth gadarn o faterion moesol a chymdeithasol.

67. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth sicr o egwyddorion cyfle cyfartal a chaiff pob disgybl yr un cyfle i gyfranogi yng ngweithgareddau'r ysgol. Mae gwybodaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda. Maent hefyd yn arddangos dealltwriaeth dda o draddodiadau cymdeithasol a diwylliannol, credoau a diwylliannau eraill.

68. Mae ymagweddiadau'r disgyblion tuag at eu dysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn dda. Maent yn gweithio'n galed mewn gwersi ac yn barod i ymuno yn yr ystod eang o weithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Gwnânt gynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial ac maent yn barod ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu.

69. Trwy'r ysgol, dengys y disgyblion gynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol. Cydweithiant yn effeithiol mewn parau, fel grwpiau ac fel dosbarth cyfan. Maent yn parchu barn a chyfraniadau eraill.

70. Mae'r disgyblion hŷn yn medru trafod cryfderau a gwendidau eu gwaith yn synhwyrol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn deall yr hyn a wnânt ac yn medru trafod y tasgau maent yn eu mwynhau. Yn gyffredinol, nid yw gallu'r disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen ei wneud i wella safonau eu gwaith wedi datblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol wedi adnabod hwn yn briodol yn y CDY fel maes ar gyfer datblygiad pellach.

71. Mae safonau ymddygiad y disgyblion yn dda iawn. Symudant o gwmpas mewn modd trefnus, gan arddangos hunanddisgyblaeth effeithiol. Caiff yr agwedd gyfrifol hon effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wnânt.

72. Mae lefelau presenoldeb yn dda. Ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad, 94.8% oedd canran y presenoldeb ar gyfartaledd. Mae hyn yn rhagori ar y canrannau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Mae'r ysgol yn monitro a chofnodi presenoldeb y disgyblion yn ofalus ac yn unol â'r gofynion cyfredol.

73. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am fywyd cymunedol eu hardal a chyfrannant i lawer o achlysuron lleol. Trwy ymweliadau, cysylltiadau â busnesau lleol a chyfraniadau ymwelwyr, mae ganddynt hefyd ymwybyddiaeth gyffredinol o fyd gwaith. Yn eu dyddiau cynnar, fodd bynnag, y mae datblygiad eu medrau menter. Mae'r ysgol wedi adnabod yr agweddau yma yn gywir yn y CDY ar gyfer datblygiad pellach.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

74. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

75. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
12%	82%	6%	0%	0%

76. Mae'r canran uchod o wersi sy'n Radd 1 a Gradd 2 at ei gilydd yn uwch na'r canfyddiadau cenedlaethol o 83% a nodir yn Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer 2007-8. Fodd bynnag, mae'r canran o wersi Gradd 1 a welwyd yn is na'r canfyddiadau cenedlaethol o 16 % o wersi.

77. Lle dyfarnwyd Gradd 1 i'r addysgu, mae'r nodweddion rhagorol a arsylwyd yn cynnwys:

- addysgu bywiog ac ysgogol, a gweithgareddau heriol;
- disgwyliadau uchel o'r disgyblion sy'n cael eu hannog i gyflawni safonau uchel; a
- defnydd hynod o effeithiol o dechnegau addysgu creadigol.

78. Lle dyfarnwyd Gradd 2 i'r addysgu, mae'r nodweddion da yn cynnwys:

- amcanion clir sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion;
- cyfleoedd da a gynigir i'r disgyblion ymholi ac ymchwilio sy'n ennyn ac yn cynnal eu diddordeb yn y pwnc dan sylw;
- cyflwyniadau trylwyr ac esboniadau clir;
- holi da sy'n annog disgyblion i feddwl ac ystyried cyn cynnig atebion; a'r
- cydweithio effeithiol rhwng athro a disgybl.

79. Pan fydd ychydig o ddiffygion yn yr addysgu, mae'r gweithgareddau yn parhau yn rhy hir i ateb oed ac ystod gallu'r disgyblion.

80. Ceir nodau gwersi clir a gwybodaeth briodol am natur y gweithgareddau yn y cynllunio tymor byr. Er hyn, ni roddir sylw digonol bob amser i sicrhau bod tasgau yn cyfateb ag anghenion dysgu penodol disgyblion mewn dosbarthiadau cymysg o ran oed a gallu.

81. Mae'r berthynas waith ragorol rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn hyrwyddo dysgu effeithiol. Mae'r athrawon a'r staff cynnal yn trin disgyblion yn gyfartal, gwaeth beth yw eu cenedl, hil neu allu.

82. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda o'r pynciau y maent yn ei haddysgu ac o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau addysgu ac ystod o adnoddau perthnasol er mwyn cynnig profiadau dysgu da i ddisgyblion.

83. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth o strategaethau pwrpasol i ymestyn cymhwysedd dwyieithog y disgyblion. Er hyn, anwastad yw datblygiad medrau Cymraeg lleiafrif o'r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r Cwricwlwm Cymreig a phwyslais ar ddiwylliant Cymru yn nodwedd amlwg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Manteisir ar bob cyfle i ddatblygu'r dimensiwn Cymreig o fewn pynciau megis celf a dylunio, cerddoriaeth a daearyddiaeth.

84. Mae athrawon yn herio delweddau a safbwyntiau ystrydebol yn llwyddiannus a chaiff yr holl ddisgyblion eu hannog i gyfrannu'n weithredol at yr ystod eang o weithgareddau a ddarperir. Mae'r athrawon yn monitro ac adolygu gwaith eu disgyblion yn rheolaidd.

85. Mae nodweddion da i'r gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd y disgyblion. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gytundeb asesu yr AU ac ymlynir yn agos at amserlen a'r rhaglen asesu hon. Ceir gweithdrefnau addas i ddarparu gwybodaeth i'r rhai sydd â diddordeb dilys parthed cynnydd a chyraeddiadau disgyblion.

86. Defnyddir profion safonol i dracio perfformiad a chynnydd y disgyblion yn y pynciau craidd. Atgyfnerthir y rhain gan brofion a systemau recordio sy'n gyffredin i'r teulu ysgolion lleol. Ceir profion a gweithdrefnau monitro cynnydd penodol mewn rhai o'r pynciau sylfaen megis dylunio a thechnoleg, celf a dylunio, a cherddoriaeth. Mewn lleiafrif o'r pynciau sylfaen, fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi yn fwy anffurfiol eu natur.

87. Gwneir defnydd da o'r dystiolaeth a gynhyrchir gan asesiad gwaelodlin ar gyfer plant dan bump ac mae gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer nodi eu cynnydd a'u datblygiad ar draws y meysydd dysgu. Gwneir defnydd da o'r asesiadau safonol, gan gynnwys asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn y pynciau craidd, er mwyn gosod targedau ac adnabod cryfderau ac elfennau i'w datblygu. Defnyddir y drefn cofnodi canlyniadau profion yn ofalus ar gyfer tracio cynnydd disgyblion a cheir strwythurau effeithiol ar gyfer adnabod disgyblion sy'n tangyflawni.

88. Mae gan bob disgybl ffeil cyrhaeddiad ddefnyddiol sy'n cynnwys enghreifftiau o brofion a'r canlyniadau, a chopïau o adroddiadau blynyddol. Yn ogystal, cedwir ffeiliau dosbarth cynhwysfawr gan athrawon ar gyfer monitro cynnydd a

datblygiad cyffredinol disgyblion. Mae gweithdrefnau trefnus ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion ag AAA.

89. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r teulu ysgolion, sy'n cynnwys ysgolion uwchradd, ar gyfer creu portffolios o waith wedi ei lefelu yn y pynciau craidd. Mae hyn yn cynorthwyo'r broses cysoni a chymedroli gwaith disgyblion.

90. Trafodir amcanion gwersi yn dda gyda disgyblion a rhoddir adborth llafar priodol iddynt am eu cyflawniadau. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn yr arfer orau mae'r marcio yn nodi'r ffordd ymlaen mewn ffordd glir. Cyfeirir at elfennau yn ymwneud ag asesu yn y cynllunio byr dymor ac yn yr arfer orau, defnyddir y dystiolaeth yn effeithiol ar gyfer cynllunio pellach.

91. Gosodir targedau personol mewn iaith, mathemateg a datblygiad cyffredinol i ddisgyblion yn dymhorol a rhennir y rhain gyda'r rhieni. Yn ei dyddiau cynnar, fodd bynnag, y mae'r broses o gynnwys disgyblion yn y gwaith o osod targedau a gwerthuso'r cynnydd a wnânt. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol. Maent o ansawdd da ar y cyfan ac yn amlinellu medrau a chyflawniadau'r disgyblion ym mhob pwnc. Nodir targedau penodol yn glir ar gyfer datblygiad pellach disgyblion yn y pynciau craidd. Caiff rhieni gyfleoedd i ymateb yn ysgrifenedig i'r adroddiadau.

92. Gwerthfawroga'r rhieni bolisi drws agored yr ysgol a'r cyfleodd i ddod i drafod cynnydd a chyflawniadau eu plant. Cynhelir nosweithiau agored i rieni ddwywaith y flwyddyn pan fedrant arsylwi ar lyfrau gwaith eu plant a thrafod eu targedau, eu cyflawniad a'u cynnydd.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

93. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

94. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys ansawdd uchel cyfraniad ymwelwyr, ymweliadau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol i brofiadau dysgu disgyblion; natur gyfoethog y cysylltiadau gyda'r gymuned, a'r profiadau gwerthfawr a ddarperir mewn perthynas â'r dimensiwn rhyngwladol, addysg cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

95. Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio â gofynion statudol a derbynia'r disgyblion fynediad cyfartal i brofiadau dysgu eang a chytbwys sy'n berthnasol i'w hanghenion. Mae gweithdrefnau ar gyfer addasu cwricwlwm CA2 i gwrdd â'r gofynion diweddaraf yn datblygu'n dda.

96. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

97. Mae'r ysgol yn cwrdd â dyheadau dysgwyr yn effeithiol. Cynigir cwricwlwm cyfoethog yn y ddau gyfnod allweddol sy'n seiliedig ar brofiadau uniongyrchol a gweithgareddau diddorol.

98. Mae polisïau a chynlluniau gwaith ar gyfer holl feysydd y cwricwlwm ac maent yn cynnig arweiniad defnyddiol i'r staff. Ceir polisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer

datblygu'r medrau allweddol ar draws y cwricwlwm ac mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau meddwl y disgyblion. Er hyn, nid yw'r cynllunio bob amser yn ddigon manwl er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad cyson yn y medrau.

99. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol y disgyblion, yn enwedig mewn cerddoriaeth a chelf a dylunio, lle ceir addysgu arbenigol, yn dda gyda nodweddion rhagorol. Cyfoethogir y profiadau cerddorol ymhellach trwy gyfraniad athrawon teithiol sy'n cynnig hyfforddiant offerynnol i ddisgyblion.

100. Chwaraeir rhan bwysig iawn gan ymwelwyr i'r ysgol sy'n cynnwys clerigwyr, artistiaid, cerddorion, beirdd a chwmnïau drama. Trefnir ymweliadau i nifer o lefydd pell ac agos, ac yn arbennig i leoliadau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm mewn astudiaethau hanes, celf, daearyddiaeth a gwyddoniaeth. Mae'r holl brofiadau a ddarperir yn y cyd-destunau hyn yn gwneud cyfraniad rhagorol i ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir.

101. Hyrwyddir a chyfoethogir profiadau'r disgyblion yn rhagorol gan amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clwb chwaraeon a gymnasteg, adran yr Urdd, Clybiau Campau'r Ddraig, clwb garddio, bowlio, a chlwb dawnsio disgo. Darperir cyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan mewn cystadlaethau Mudiad yr Urdd ac i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill mewn nifer o ffyrdd. Nodwedd arwyddocaol yw'r cyfleoedd i ddisgyblion B5 a B6 dreulio cyfnodau preswyl blynyddol mewn canolfannau gwahanol. Cynigir clwb brecwast o dan arweiniad cyn ddisgyblion a chlwb joio o dan arweiniad Menter Cwm Gwendraeth. Mae'r elfennau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at hybu cydweithrediad ymhlith disgyblion a'u dealltwriaeth o chwarae teg.

102. Mae'r ffocws ar hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn dda gyda nodweddion rhagorol. Yn 2007, derbyniodd yr ysgol Wobr Ysgol Ryngwladol am waith yn seiliedig ar hybu dinasyddiaeth. Dethlir yr elfen aml ddiwylliannol yn effeithiol iawn, yn bennaf trwy gysylltiadau â gwledydd eraill sy'n deillio o ymrwymiad yr ysgol i'r prosiect Gwreiddiau ac Adenydd. Mae'r cysylltiadau cryf sydd rhwng yr ysgol ac ysgolion yn Ne Iwerddon a Denmarc yn ffynhonnell sy'n darparu profiadau o safon uchel iawn i'r disgyblion. Cefnogir y rhain gan brofiadau gwerthfawr a ddarperir mewn pynciau, megis addysg grefyddol, cerddoriaeth, daearyddiaeth a chelf a dylunio, sy'n ehangu ymhellach ymwybyddiaeth y disgyblion o fywyd a thraddodiadau gwahanol.

103. Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion. Ceir rhaglen effeithiol iawn ar gyfer addoliad ar y cyd dyddiol ac mae'r achlysuron hyn yn cyfleu naws addolgar i'r disgyblion lle mae cerddoriaeth a chanu yn chwarae rhan bwysig. Caiff y disgyblion gyfleoedd da i gymryd rhan ac i synfyfyrio ar themâu y gwasanaethau. Cyflawnir y gofynion statudol. Mae'r profiadau a geir mewn nifer o bynciau ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn celf a dylunio,a cherddoriaeth, yn cyfrannu'n dda iawn i'w datblygiad ysbrydol.

104. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion o safon uchel. Cyflwynir negeseuon moesol yn gyson yn ddyddiol yn yr ysgol ac mewn gwasanaethau. Canolbwyntir yn effeithiol iawn ar y cysyniad o barch a rhoddir pwyslais llwyddiannus ar sicrhau bod disgyblion yn gwrtais i'w gilydd a chyda staff ac ymwelwyr. Darperir cyfleodd cyson ar gyfer hybu cydweithrediad effeithiol o fewn grwpiau ac o fewn dosbarth. Yn ogystal, rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion ddangos blaengaredd a chymryd cyfrifoldeb drwy'r

cyngor ysgol. Mae'r profiadau cyfoethog sy'n ymwneud â'r rhaglen ABCh yn cyfrannu'n sylweddol yn y cyd-destun hwn.

105. Ceir profiadau da ar gyfer hybu ABCh y disgyblion. Mae polisi a chynllun gwaith cynhwysfawr iawn mewn lle wedi'u seilio ar ganllawiau cenedlaethol sy'n rhoi arweiniad clir i'r staff. Ceir amser priodol wedi ei neilltuo ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Yn ogystal, intigreiddir yr egwyddorion yn effeithiol i wahanol rannau o'r cwricwlwm. Ceir ffocws da ar fwyta'n iach ac mae'r ysgol y gweithio tuag at ail ddeilen y fenter hon.

106. Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn dda iawn a chafwyd ymatebion positif iawn yn yr holiaduron a ddychwelwyd i'r arolygwyr cyn yr arolygiad yn ogystal â'r ymatebion i holiadur a baratowyd gan yr ysgol. Darperir gwybodaeth reolaidd i rieni ac mae prosbectws yr ysgol, adroddiad y llywodraethwyr i rieni a'r cytundebau cartref/ysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol. Mae rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cynnig cymorth ymarferol yn ogystal â chyfrannu'n ariannol.

107. Mae'r ysgol yn elwa oddi wrth ystod eang o gysylltiadau cryf iawn yn yr ardal. Mae'r disgyblion yn cyfrannu at fywyd diwylliannol y fro a gwna'r staff ddefnydd o'r ardal leol ar gyfer astudiaethau o elfennau o'r cwricwlwm. Gwna aelodau o'r gymuned gyfraniad pwysig iawn i brofiadau dysgu'r disgyblion mewn sawl cyd destun gan gynnwys gweithgareddau all gyrsiol.

108. Mae'r ysgol yn rhan o deulu o ysgolion sydd yn cydweithio'n agos ac yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn datblygu'r cwricwlwm. Ceir ystod o gysylltiadau cryf iawn gyda'r ysgolion uwchradd perthnasol. Yn ogystal, ceir cysylltiadau o safon dda gyda cholegau cyfagos, gan gynnwys coleg yn ymwneud â hyfforddiant cychwynnol athrawon.

109. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg gynaliadwy yn dda gyda nodweddion rhagorol ac mae'r ysgol wedi derbyn baner werdd ysgolion eco. Canolbwyntir ar gynaladwyedd yn effeithiol iawn drwy'r cwricwlwm, gweithgareddau ailgylchu, y clwb garddio, gosod blychau nythu a phlannu coed, a gwella amgylchedd yr ysgol. Mae darpariaeth dda ar gyfer hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth byd eang drwy'r dimensiwn rhyngwladol, sylw da i bwysigrwydd masnach deg, a'r cyfleoedd rheolaidd i gyfrannu at elusennau.

110. Ceir ethos Cymreig cadarn iawn drwy'r ysgol hon. Rhydd yr ysgol ystyriaeth uchel i'r diwylliant Cymreig ac etifeddiaeth Cymru. Darperir profiadau gwerthfawr ar gyfer hybu'r Cwricwlwm Cymreig mewn nifer o bynciau yn ogystal â thrwy fywyd cyffredinol yr ysgol sy'n bodloni'r gofynion yn llawn. Gwna ymwelwyr ac ymweliadau gyfraniadau pwysig yn y cyd destun hwn.

111. Ceir ffocws clir ar hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion. Cymraeg yw prif gyfrwng yr holl addysgu ac eithrio yr addysgu mewn celf a dylunio, dylunio a thechnoleg a Saesneg yn CA2. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar gryfhau ansawdd y cyfathrebu llafar a'r ysgrifennu yn y Gymraeg ar draws yr ysgol.

112. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith cartref yn briodol ac yn cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion hynaf ganolbwyntio ar waith ymchwil.

113. Mae'r ffocws ar fyd gwaith ac ar fentergarwch yn elfen y mae'r ysgol wedi ei nodi yn briodol ar gyfer datblygiad pellach yn y CDY. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith yn datblygu trwy ymweliadau â siopau yn yr ardal ac

ymhellach i ffwrdd ynghyd â thrwy gyfraniad ymwelwyr sy'n dod i'r ysgol i siarad am eu gwaith. Mae'r ffocws ar fentergarwch yn datblygu trwy'r profiadau a gaiff y disgyblion i fod yn gyfrifol am y siop ffrwythau, eu hastudiaeth o barc masnach lleol a'r profiad o fod yn aelodau o'r cyngor ysgol. Mae'r cysylltiadau da gyda chyflogwyr lleol yn cryfhau gwybodaeth a phrofiadau staff o fyd gwaith.

114. Mae darpariaeth yr ysgol yn cymryd ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, megis dwyieithrwydd, cydraddoldeb, a datblygiadau mewn perthynas â TGCh. Caiff y disgyblion brofiadau da i weithio yn annibynnol ac i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldeb tuag at ddyfodol eu cymuned.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

115. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

116. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd yn dda. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol. Mae'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac mae perthynas dda iawn rhyngddynt a'r athrawon a'r holl staff atodol. Ceir ymdeimlad cryf o blith y disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r rhieni a fynegodd farn yn canmol yr ysgol am y gofal a'r cyfarwyddyd a rydd yr ysgol i'w plant.

117. Mae'r trefniadau sefydlu ar gyfer y plant meithrin yn dda. Mae plant newydd, gan gynnwys hwyrddyfodiaid, yn ymgartrefu'n gyflym i fywyd a threfn yr ysgol. Darperir cefnogaeth dda iddynt gan yr athrawon, y cymorthyddion, a disgyblion hynaf yr ysgol. Sefydlwyd perthynas dda iawn gyda'r ysgolion uwchradd ac mae trefniadau pontio effeithiol gyda'r ysgolion y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddynt.

118. Mae'r gefnogaeth a'r cyfarwyddyd personol a roddir i'r disgyblion yn dda. Datblygir ABCh oddi-mewn i agweddau cwricwlaidd ac mae'r sesiynau amser cylch a holl ethos yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at yr agwedd hon.

119. Trwy'r ddarpariaeth ar gyfer ABCh a'r Cynllun Ysgol Iach, rhydd yr ysgol sylw da i ddatblygiad iachus a lles y disgyblion. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn nifer o chwaraeon a gweithgareddau corfforol, ac mae'r gwersi addysg gorfforol yn rhoi pwyslais priodol ar hybu ffitrwydd personol. Mae dŵr ar gael a chaiff ffrwythau a llysiau ffres eu cynnwys ym mhrydau bwyd ysgol.

120. Caiff polisïau iechyd a diogelwch eu gweithredu'n ofalus, a dilynir y gweithdrefnau priodol. Caiff driliau tân eu cynnal a'u dogfennu'n rheolaidd. Ceir trefniadau priodol ar gyfer addysg rhyw ac ar gyfer cofnodi damweiniau. Caiff cymwysterau ac adnoddau cymorth cyntaf eu diweddaru'n rheolaidd.

121. Gweithredir mesurau priodol i ddileu ymddygiad gormesol, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil, bwlio a phob ffurf o aflonyddu. Defnyddir rheolaeth gadarnhaol o ymddygiad yn effeithiol i atgyfnerthu ymddygiad da. Pan fydd ymddygiad yn arwain at waharddiad dros dro, dilynir y gweithdrefnau priodol gyda gofal.

122. Gweithredir polisi eglur ar gyfer amddiffyn plant ,yn unol â gweithdrefnau lleol a Chymru gyfan, sydd yn dynodi'r trefniadau priodol. Mae aelodau staff a llywodraethwr dynodedig yn goruchwylio'r maes pwysig hwn. Mae'r holl staff a'r llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac yn llwyr ymwybodol o'r protocolau i'w dilyn.

123. Mae'r ysgol yn monitro prydlondeb a phresenoldeb y disgyblion yn dda. Gweinyddir cyfnodau cofrestru'n briodol, gyda phresenoldeb, absenoldeb a phrydlondeb yn cael eu monitro'n glos.

124. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA yn dda ac yn cyflawni gofynion y Côd Ymarfer. Ceir systemau effeithiol ar gyfer dynodi ac adnabod AAA yn gynnar. Caiff cynlluniau addysgol unigol (CAU) eu paratoi gan y cydlynydd AAA a'r athrawon dosbarth. Mae'r cynlluniau yn cynnwys targedau priodol i'w cyflawni ac yn manylu ar y camau bychain sydd angen i'r disgyblion eu meistroli. Caiff y cynlluniau eu hadolygu a'u haddasu'n dymhorol.

125. Mae gweithdrefnau asesu a chofnodi effeithiol yn galluogi disgyblion sydd ag AAA gael eu tracio, monitro a'u cofnodi ar draws yr ysgol. Mae'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer AAA yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r ddarpariaeth. Ceir cyswllt buddiol a chefnogol gyda'r rhieni a gwasanaethau arbenigol er mwyn cyflawni anghenion dynodedig y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth a'r trefniadau i fodloni anghenion disgyblion sydd dan ofal yr AU wedi'u rheoli'n briodol.

126. Mae gan ddisgyblion sydd ag AAA fynediad llawn i'r cwricwlwm a chânt eu hintegreiddio'n effeithiol i waith a gweithgareddau'r ysgol.

127. Caiff disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn iaith a chyfathrebu eu neilltuo yn ôl eu hangen i weithio gyda'r athrawes cynnal dysgu AAA. Mae'r gwaith yma'n ffocysu'n dda ar anghenion penodol y disgyblion. Ceir defnydd effeithiol o ystod o strategaethau addysgu a dysgu i gefnogi'r disgyblion hyn.

128. Yn y dosbarthiadau prif ffrwd, derbynia'r disgyblion sydd ag AAA gefnogaeth dda oddi wrth eu hathrawon a'r cynorthwywyr dosbarth. Er hyn, nid yw'r tasgau bob amser yn cydweddu'n ddigonol â'u hanghenion dysgu. Yn yr arfer orau, caiff y disgyblion mwyaf galluog eu herio mewn gwersi trwy dasgau addas a gweithgareddau ymestynnol.

129. Mae hon yn ysgol gynhwysol sydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac yn dathlu amrywiaeth. Mae'n rhoi ystyriaeth briodol i'r fframwaith statudol ar gyfer addysg gynhwysol. Rhydd y staff ystyriaeth dda i gefndiroedd cymdeithasol, addysgol, ac ieithyddol y disgyblion.

130. Addysgir y disgyblion i werthfawrogi a pharchu amrywiaeth. Gweithredir polisi a chynllun priodol ar gyfer ymwybyddiaeth hiliol ac mae eu prif nodweddion yn amlwg ym mywyd beunyddiol yr ysgol. Mae'r cynllunio yn ABCh a'r cwricwlwm yn adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas y mae'r disgyblion yn byw ynddi.

131. Mae'r cyngor ysgol yn gweithio'n effeithiol ac yn gweithredu yn unol â'r canllawiau cyfredol. Caiff y cyfle i wasanaethu fel aelod o'r cyngor ysgol ei werthfawrogi gan y disgyblion ac mae'n hyrwyddo eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd da iddynt gyfrannu at benderfyniadau'r ysgol sydd yn effeithio arnynt hwy.

132. Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Anabledd a chynllun gweithredu priodol. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd gan y corff llywodraethol ac adroddir arnynt yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni. Ceir cyfleusterau addas i'r anabl ynghyd â mynediad priodol i'r ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

133. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

134. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y pennaeth yn dda ac yn cynnig cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Mae ei gwerthoedd cadarn a'i hymrwymiad diflino i les a datblygiad pob disgybl, a gwella safonau, yn hysbys i staff, llywodraethwyr a rhieni ac fe'u hadlewyrchir yn amlwg yng ngwaith yr ysgol.

135. Cydweithia holl aelodau'r staff yn dda a cheir ymdeimlad cryf o gefnogaeth y naill i'r llall er mwyn hybu datblygiad pellach yr ysgol. Mae nodau a gwerthoedd yr ysgol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, wedi'u cofnodi'n eglur yn nogfennaeth yr ysgol.

136. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaengareddau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol wedi ennill achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Medrau Sylfaenol a thrwy'r fenter Ysgol Iach yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o arferion bwyta a byw'n iach yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio yn datblygu i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm diwygiedig a'r Cyfnod Sylfaen.

137. Mae'r cydweithio da gyda nifer o bartneriaethau lleol a sirol, megis y teulu o ysgolion bach, colegau ac ysgolion uwchradd, yn cyfrannu'n dda at gyfoethogi'r cwricwlwm, hyrwyddo dilyniant priodol yn y ddarpariaeth addysgol, ac ymestyn datblygiad proffesiynol y staff.

138. Mae'r pennaeth a'r staff yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau priodol ar gyfer disgyblion. Mae'r targedau'n realistig ac yn seiliedig ar berfformiad tebygol pob disgybl. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni ac ar adegau yn rhagori ar eu targedau. Gwneir y llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o ystadegau meincnodi a phrif ganfyddiadau'r dadansoddiadau.

139. Rheolir y staff yn dda gan y pennaeth ac mae strwythurau addas mewn lle ar gyfer gwella perfformiad staff. Mae trafodaethau tîm a dulliau cynllunio ar y cyd yn hyrwyddo eu datblygiad ac yn cyfrannu at y gwaith o wella safonau cyflawniad y disgyblion.

140. Mae'r ysgol yn rhoi gweithdrefnau rheoli perfformiad ar waith yn unol â gofynion statudol. Ceir ymrwymiad cryf i sicrhau bod datblygiad proffesiynol y staff yn parhau. Caiff ei arwain gan anghenion proffesiynol athrawon ynghyd â blaenoriaethau datblygu'r ysgol.

141. Mae'r CDY yn gosod targedau priodol mewn ystod o faterion ac mae'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun yn rhai cyfredol. Mae prosesau effeithiol

mewn lle ar gyfer gosod ac adolygu targedau, a gwneir cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r prif dargedau sydd wedi eu gosod. Gwelir gwelliannau amlwg mewn meysydd megis ehangu adnoddau TGCh, a datblygu dulliau hunan arfarnu.

142. Mae'r corff llywodraethol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheolaethol a chyfreithiol. Rhoddir sylw dyladwy i ofynion statudol wrth baratoi a gweithredu polisïau ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn meddu ar drefniadau priodol er mwyn delio â chwynion ac apeliadau.

143. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth eglur o'u rolau a'u cyfrifoldebau a chyfrannant yn dda at brosesau cynllunio strategol. Rhoddant gefnogaeth dda iawn i'r pennaeth a'r staff.

144. Mae'r corff llywodraethol yn cymryd rhan gynyddol ym mhrosesau hunan arfarnu'r ysgol. Mae aelodau yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i drafod agweddau ar y ddarpariaeth ac yn adrodd yn ôl i'r corff llawn. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i wneud penderfyniadau pwrpasol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

145. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

146. Mae diwylliant o hunan arfarnu yn bodoli ac mae canfyddiadau'r arolygiad yn awgrymu bod yr ysgol yn adnabod ei chryfderau ac elfennau i'w datblygu. Cytunodd y tîm arolygu â barn yr ysgol ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol yn ogystal â sylwadau'r ysgol mewn perthynas â mwyafrif o is-rannau'r cwestiynau hyn.

147. I raddau helaeth, mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth sefydlu gweithdrefnau hunan arfarnu trylwyr sy'n darparu cyfleoedd i gasglu tystiolaeth o holl adrannau cymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth, yr holl staff a'r llywodraethwyr yn rhan o'r broses ac yn ymrwymedig i ddatblygiad pellach yr ysgol. Nodwedd bositif o'r broses yw'r cyfle a roddir i ddisgyblion ddatgan barn drwy holiaduron, yn ystod amserau cylch ac fel aelodau o'r cyngor ysgol. Caiff rhieni gyfle i gyfrannu drwy gwblhau holiaduron yn ymwneud â gwahanol agweddau ar fywyd yr ysgol. Yn ogystal, ceir cyfraniadau pwysig gan ymgynghorwraig fugeiliol yr ysgol.

148. Ceir arweiniad a chyfraniad effeithiol gan y pennaeth sydd â throsolwg da o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hi a'r athrawes â lwfans penodol yn monitro ansawdd yr addysgu yn y dosbarthiadau yn rheolaidd. Mae'r athrawon yn trafod eu haddysgu a chyflawniadau'r disgyblion yn gyson ac mae'r staff ategol yn cefnogi'r broses hon yn effeithiol.

149. Mae rôl y cydlynwyr pwnc yn datblygu'n dda. Lluniwyd rhaglen hunan arfarnu ac amserlen fonitro sy'n rhestru'r pynciau a'r elfennau sydd i gael sylw. Cynhyrchir adroddiadau defnyddiol er mwyn adnabod cryfderau ac elfennau i'w datblygu ymhellach. Gwneir defnydd da o dystiolaeth a gynhyrchir gan asesiadau athrawon, profion safonedig ac asesiadau parhaus, ac o ddyddiaduron ar gyfer nodi sylwadau.

150. Mae cysylltiad clir rhwng y broses hunan arfarnu a'r CDY. Mae'r CDY yn amlinellu nodau a blaenoriaethau priodol ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen. Ceir camau a gweithgareddau penodol, llinell amser glir a chyfeiriadau at hyfforddiant ac adnoddau angenrheidiol. Caiff y gyllideb ei rheoli'n ofalus ac fe gysylltir gwariant yn agos â phrif flaenoriaethau'r ysgol. Gwna'r ysgol gynnydd cyson tuag at gyflawni ei thargedau.

151. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r broses hunan arfarnu wedi arwain at weithrediadau pwysig ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen. Maent yn cynnwys ehangu'r cwricwlwm, hybu sgiliau meddwl y disgyblion a datblygu TGCh.

152. Mae'r ddogfen hunan arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad o safon dda. Mae'n cynnig ystod dda o wybodaeth berthnasol a dadansoddiad effeithiol o nifer o agweddau ar y ddarpariaeth addysgol. Canfyddir blaenoriaethau a meysydd ar gyfer datblygu ynghyd â chryfderau a'r hyn sydd wedi'i gyflawni eisoes.

153. At ei gilydd, mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i'r mwyafrif o'r materion allweddol yn adroddiad yr arolygiad blaenorol. Mae safonau daearyddiaeth wedi codi, datblygwyd gweithdrefnau monitro gan sicrhau bod y canlyniadau yn bwydo'r CDY, a datblygwyd rhaglen ABCh. Nid yw safonau Cymraeg wedi gwella'n ddigonol ac erys yr angen i gryfhau datblygiad agweddau ar y medrau allweddol ymhellach.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

154. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

155. Mae ansawdd cyffredinol yr holl staff a'r defnydd a wneir o'u sgiliau yn dda. Ceir cyflenwad digonol o staff addysgu, gan gynnwys rhai rhan amser, ar gyfer niferoedd y disgyblion yn yr ysgol. Mae gan yr athrawon gymwysterau priodol ac ystod eang o arbenigedd ac mae'r cynllunio ar gyfer eu lleoli a dirprwyo cyfrifoldebau yn dda. Buddsoddir mewn staff cynorthwyol brwdfrydig sy'n cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon.

156. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i ofynion ailfodelu'r gweithlu. Bodlonir gofynion statudol, a rheolir adnoddau yn effeithlon. Mae trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer darparu yr amser angenrheidiol i athrawon ar gyfer paratoi, cynllunio ac asesu. Cyflogir athrawon rhan amser gydag arbenigedd pynciol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys Saesneg, dylunio a thechnoleg, a cherddoriaeth, yn ystod cyfnodau rhyddhau athrawon. Gwnânt gyfraniad effeithiol iawn i'r cwricwlwm a gynigir ac at godi safonau. Mae trefniadau priodol i leihau tasgau clerigol a gweinyddol athrawon.

157. Mae'r disgrifiadau swydd sydd gan y staff yn rhoi amlinelliad clir o'u cyfrifoldebau. Ymgymerir yn briodol â'r ymchwiliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer y staff.

158. Cydweithia'r athrawon yn effeithiol iawn fel tîm a gwneir defnydd da o wasanaeth athrawon teithiol gan gynnwys athrawes fro ar gyfer datblygu'r Gymraeg ac o'r

gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan yr AU. Yn ogystal, gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd ystod eang o ymwelwyr a gwirfoddolwyr.

159. Mynycha'r staff ystod dda o raglenni datblygu, gan gynnwys hyfforddiant estynedig ar brydiau, a chaiff y profiadau hyn effaith gadarnhaol ar eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

160. Ar y cyfan, mae safon yr adeilad a'r lleoliad yn dda a chânt eu cadw yn lân ac yn daclus. Gwneir defnydd da o'r adeilad a'r lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o neuadd yr ysgol ar gyfer sesiynau addoli ar y cyd a gwersi addysg gorfforol, er bod y gwagle braidd yn gyfyngedig. Gwneir defnydd priodol hefyd o'r ystafell adnoddau, sy'n cynnwys llyfrgell, gan yr athrawon a'r disgyblion. Mae ystafelloedd dysgu yn cynnig digon o le ar gyfer yr addysgu a cheir darpariaeth tu allan briodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

161. Mae digon o le ar y buarth allanol ar gyfer gwersi addysg gorfforol ac amserau chwarae. Datblygwyd tir gwastraff yr ardal dawel gyda borderi blodau, planhigion a choed i ennyn diddordeb y disgyblion i dyfu blodau a llysiau. Yn ystod tymor yr haf, cynhelir clwb garddio ar ôl ysgol. Gwneir defnydd o gae chwarae y pentref, sy'n ffinio gyda'r ysgol, ar gyfer athletau a chwaraeon.

162. Un o gryfderau'r ysgol yw safonau uchel yr arddangosfeydd ar draws yr ysgol sy'n cyfrannu'n fawr at greu amgylchedd symbylol.

163. Ceir ystod o adnoddau da ar gyfer cefnogi cwricwlwm y disgyblion; maent yn briodol i anghenion a'r ystod oed. Mae bwrdd gwyn rhyngweithiol ym mhob dosbarth a nifer briodol o gyfrifiaduron. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau sy'n sicrhau bod y disgyblion yn derbyn profiadau dysgu da. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i sicrhau digonolrwydd a chymhwyster yr adnoddau. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn ystyried y rhaglen wariant yn ofalus ac yn cyllido blaenoriaethau'r ysgol yn effeithlon.

164. Defnyddir cyllideb yr ysgol a'r grantiau a dderbynnir, gan gynnwys grant ar gyfer y teulu ysgolion, yn dda. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol wedi eu cysylltu'n dda gyda'r cynlluniau ar gyfer datblygiad pellach yr ysgol. Mae'r swm a gedwir wrth gefn wedi ei glustnodi'n briodol ar gyfer sicrhau staffio digonol. Adolygir y gwariant yn rheolaidd gan y pennaeth a'r llywodraethwyr a gwneir cyfraniad pwysig gan y swyddog cynnal ysgol yn y cyd-destun hwn. Mae'r gwariant cymharol ddiweddar ar y Cyfnod Sylfaen ac ar TGCh wedi gwneud cyfraniad da i'r ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Cymraeg iaith gyntaf

Cyfnod allweddol 1: Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Cyfnod allweddol 2: Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

165. Yn CA1, mae gan y disgyblion sgiliau gwrando da. Mae'r mwyafrif yn siarad yn ddigon eglur wrth ofyn ac ateb cwestiynau ac wrth gyfrannu at drafodaethau, pan fônt, er enghraifft, yn ffocysu ar stori ddosbarth neu wrth wneud dewisiadau am yr hyn fydd angen arnynt wrth dalu ymweliad dychmygol â'r anialwch.

166. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws CA1 yn gwneud cynnydd priodol mewn darllen ac, yn gyffredinol, maent yn darllen yn ddigon cywir ac yn dangos dealltwriaeth addas o'r cynnwys.

167. Gwna mwyafrif o ddisgyblion CA1 gynnydd priodol mewn ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn dechrau datblygu eu sgiliau ysgrifennu annibynnol. Gwnânt ddefnydd o atalnodi, gan gynnwys llythrennau mawr ac atalnodau llawn, wrth iddynt gynhyrchu brawddegau a darnau mwy estynedig o ysgrifennu.

168. Ar draws CA2, gwna mwyafrif y disgyblion gynnydd priodol mewn siarad a gwrando. Gwna lleiafrif gynnydd da a dangosant afael gynyddol ar batrymau a geirfa wrth iddynt drafod damwain ddychmygol, a chynnwys y llyfrau y maent yn eu darllen.

169. At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni safonau da mewn darllen ar draws CA2. Maent yn darllen yn ddigon cywir gyda lefel briodol o ddealltwriaeth. Ar draws y cyfnod allweddol, mae mwyafrif y disgyblion yn medru casglu gwybodaeth o lyfrau ffeithiol, ac maent yn defnyddio geiriaduron yn hyderus.

170. Mae disgyblion ar draws CA2 yn ysgrifennu at ystod briodol o ddibenion sy'n cynnwys ail adrodd storïau, creu storïau, adroddiadau papur newydd, disgrifiadau, llythyron a cherddi. Mae ychydig o'r disgyblion yn ysgrifennu'n gywir ac mae eu gwaith yn arddangos dilyniant, ystyr a gafael effeithiol ar eirfa.

171. Ar draws y cyfnod allweddol, pan gânt gyfleoedd, mae disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u sgiliau prosesu geiriau wrth ysgrifennu ac wrth ail ddrafftio rhai elfennau o'u gwaith.

172. Er bod lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen dda, boddhaol yw sgiliau llawysgrifen y mwyafrif o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol.

Diffygion

173. Ar draws y ddau gyfnod allweddol, nid yw gafael lleiafrif o ddisgyblion ar gystrawennau iaith yn ddigon cadarn. Cyfyngedig yw'r ystod o eirfa y maent yn defnyddio wrth gyfrannu at drafodaethau.

174. Nid yw sgiliau lleiafrif o ddisgyblion CA1 mewn perthynas â thrafod cynnwys eu darllen wedi'u datblygu'n ddigonol.

175. Ar draws CA2, yn eu gwaith ysgrifenedig, cyfyngedig yw gafael lleiafrif o ddisgyblion ar batrymau brawddegol a geirfa ddisgwyliedig yn ogystal ag elfennau o atalnodi.

Mathemateg

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

176. Mae gan ddisgyblion CA1 ddealltwriaeth gadarn o fondiau rhif a gwerth lle pob digid mewn rhif ac maent yn defnyddio hynny yn gywir i drefnu rhifau. Gallant adnabod dilyniannau o rifau syml gan gynnwys odrifau ac eilrifau. Mae'r disgyblion hynaf yn deall haneri a dyblu.

177. Defnyddia disgyblion CA1 fondiau adio a thynnu yn gywir hyd at 10 a 20. Mae mwyafrif y disgyblion yn medru cyfrif fesul dau, pump a deg a chyfrif ymlaen ac yn ôl yn gywir o rifau mawr. Mae gan y disgyblion hynaf sgiliau mathemateg pen sicr. Esboniant yn hyderus y dulliau a ddefnyddiant i ddarganfod atebion.

178. Mae disgyblion CA1 yn adnabod y darnau arian mwyaf cyffredin ac maent yn medru adio symiau syml o arian yn gywir i wneud cyfansymiau gwahanol. Datblygant ddealltwriaeth dda o fesurau safonol ac ansafonol. Mae'r disgyblion yn adnabod yn dda amrywiaeth o siapiau dau ddimensiwn a thrafodant eu priodweddau yn hyderus.

179. Mae disgyblion CA1 yn trin data yn dda. Casglant wybodaeth yn drefnus a chofnodant eu canlyniadau mewn ffurf graff gyda chywirdeb da. Gallant ddehongli eu canfyddiadau yn dda ar y cyfan.

180. Yn CA2, dengys gwaith cyfredol a blaenorol y disgyblion mewn rhif fod gan y mwyafrif ddealltwriaeth sicr o'r pedwar gweithrediad. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle rhifau pum digid. Dangosant wybodaeth a dealltwriaeth gynyddol o dablau wrth rannu neu luosi a gwyddant fod ffurfiau degol, ffracsiynol a chanrannol yn gallu bod yn gyfwerth â'i gilydd. Gallant gynnig amcangyfrif rhesymol o atebion i broblemau rhifol.

181. Gall y disgyblion mwy galluog egluro'n dda ar lafar ac ar bapur eu dull o gyrraedd atebion i broblemau rhif. Gwna'r disgyblion ar draws y cyfnod allweddol ddefnydd da o'u sgiliau meddwl i'w cynorthwyo.

182. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion CA2 ddealltwriaeth sicr o le, siâp a mesur. Maent yn mesur onglau yn gywir, gan gyfeirio at nodweddion onglau llem, aflem a sgwâr. Gall y mwyafrif fesur perimedr ac arwynebedd petryalau yn gywir. Arddangosant ddealltwriaeth dda o siapiau dau a thri-dimensiwn a gallant ddatrys problemau yn ymwneud â threigl amser.

183. Mae disgyblion CA2 yn trin data mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gyda dealltwriaeth dda. Yn eu hastudiaeth o Barc Busnes lleol, er enghraifft, gall disgyblion hynaf CA2 gasglu a choladu data, a chynllunio graffiau a siartiau cylch i grynhoi canfyddiadau eu hymchwiliad yn effeithiol. Maent yn dehongli a dadansoddi eu gwaith gyda chywirdeb da.

Diffygion

184. Yn CA2, mae ychydig o'r disgyblion llai galluog yn cael anhawster cymhwyso eu medrau i ddatrys problemau mathemategol.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

185. Yn y ddau gyfnod allweddol, gall y disgyblion gymhwyso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth ac ystod eang o sgiliau yn gelfydd wrth ymgymryd â thasgau heriol.

186. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn arddangos hyder arbennig wrth ymgymryd â'r holl agweddau ar eu gwaith. Defnyddiant amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys TGCh, i ymchwilio a chynhyrchu ystod o syniadau cyn mynd ati i greu eu cynhyrchion.

187. Yn y ddau gyfnod allweddol, gall y disgyblion ddatblygu eu syniadau eu hunain, gan wneud penderfyniadau a datgan barn yn ddeallus. Gweithiant yn ddychmygus a chyda medrusrwydd arbennig.

Nodweddion da

188. Yn y ddau gyfnod allweddol, defnyddia disgyblion ystod dda iawn o ddeunyddiau a chydrannau i wneud eu cynhyrchion. Deallant fod deunyddiau yn ymddwyn mewn ffyrdd gwahanol a gallant esbonio pam fod rhai deunyddiau yn fwy addas ar gyfer y dasg y maent am ei chyflawni. Maent yn gwneud dewisiadau synhwyrol ar sail y wybodaeth hon.

189. Yn CA1, defnyddia'r disgyblion luniau a geiriau i gyfleu eu syniadau cychwynnol a gwnânt fodelau prototeip o'r cynhyrchion y maent am eu gwneud. Yn CA2, mae disgyblion yn defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir i lunio brîff manwl cyn creu prototeipiau. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn cynhyrchu cynhyrchion sy'n rhoi dehongliad cywir, ar y cyfan, o'u cynlluniau gwreiddiol.

190. Yn y ddau gyfnod allweddol, gall y disgyblion werthuso eu cynhyrchion yn effeithiol trwy eu cymharu gyda'u cynlluniau gwreiddiol, gan adnabod cryfderau a gwendidau eu cynlluniau. Maent yn aml yn gwerthuso ac yn mireinio'u dyluniad wrth iddo ddatblygu. Gwnânt newidiadau yn hyderus.

191. Mae sgiliau gwneud y disgyblion yn dda iawn. Maent yn torri a mesur yn gywir, gan ddefnyddio offer a thechnegau priodol. Yn CA2, mae'r disgyblion yn defnyddio ystod o offer yn fedrus. Deallant yn dda yr angen i fesur yn gywir. Deallant hefyd yr angen i fod yn ofalus wrth weithio gydag offer.

192. Gwna disgyblion CA1 ddefnydd effeithiol o gydrannau trydanol i greu effeithiau arbennig, megis larwm a goleuadau, yn eu modelau. Mae disgyblion CA2 yn defnyddio mecanweithiau, fframweithiau ac echelau yn eu cynhyrchion i gynhyrchu gwahanol fathau o symudiad.

193. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn mewn grwpiau bach ac maent yn ymateb yn synhwyrol i'r syniadau a gynigir gan eraill.

Daearyddiaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

194. Ar draws y ddau gyfnod, ar lefelau priodol, gwna y mwyafrif o ddisgyblion ddefnydd da o ystod o ffynonellau, gan gynnwys mapiau a lluniau i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion dynol a ffisegol eu hardal a'u gwlad. Gallant hefyd adnabod prif nodweddion gwledydd eraill, gan gynnwys Lesotho a Denmarc.

195. Mae disgyblion ar ben isaf CA1 yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'r ardal leol trwy fynd ar daith gerdded o gwmpas y pentref gan recordio eu profiadau ar ffurf lluniau. Defnyddiant eu sgiliau yn dda i ddarganfod ffyrdd o fynd o un lle i'r llall ar gynlluniau a mapiau syml. Gwnânt ddefnydd da o'u sgiliau TGCh yn y cyd-destun hwn.

196. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws CA1 yn ymwybodol o'r gwledydd sydd yn gynwysedig yn y Deyrnas Unedig. Maent hefyd yn ymwybodol o bedwar pwynt y cwmpawd.

197. Mae disgyblion B2 a B3 yn defnyddio cynlluniau a mapiau o ardal yr ysgol, gan gynnwys mapiau awyr, yn effeithiol ar gyfer nodi nodweddion arwyddocaol y fro. Casglant wybodaeth am y strydoedd a'r gwahanol fathau o dai gyda chywirdeb da.

198. Mae disgyblion B2 a B3 yn datblygu gwybodaeth dda am elfennau o fywyd mewn ardal yn Lesotho ac maent yn cymharu a chyferbynnu nodweddion o fywyd yno ag ardal eu hysgol, gan gynnwys effaith y gwahanol fathau o dywydd sy'n bodoli, yn effeithiol.

199. Mae mwyafrif o ddisgyblion B4, B5 a B6 yn defnyddio mapiau yn effeithiol wrth nodi gwahanol leoliadau yng Nghymru. Datblygant wybodaeth dda am barciau cenedlaethol Cymru a dangosant sgiliau da wrth gymharu a chyferbynnu nodweddion parc cenedlaethol yr arfordir yn Sir Benfro â pharc cenedlaethol Eryri. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ddiagramau wedi'u labeli wrth gofnodi eu gwaith.

200. Wrth ganolbwyntio ar yr ardal leol, dengys disgyblion B4, B5 a B6 sgiliau da wrth ddefnyddio pwyntiau'r cwmpawd, allweddi, a chyfesurynnau pedwar a chwe ffigwr i ddarganfod nodweddion pwysig. Gwnânt astudiaeth fanwl o barc busnes lleol trwy ddefnyddio holiaduron, a dadansoddant a chyflwynant eu canlyniadau yn effeithiol ar ffurf graffiau. Elfen ddiddorol iawn o'r gwaith yw eu sylw i sut mae'r parc wedi newid a datblygu yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf.

201. Dangosant sgiliau ymchwil da a gwnânt ddefnydd effeithiol o'u sgiliau TGCh wrth ganolbwyntio ar elfennau daearyddol yn y newyddion gan gynnwys y gwahanol fannau o'r wlad a gafodd eira trwm ar ddechrau'r flwyddyn.

202. Gwna ddisgyblion ar ben uchaf CA2 ddefnydd da o fapiau o'r byd ac o Affrica ar gyfer casglu ystod o wybodaeth berthnasol. Maent yn canolbwyntio yn effeithiol ar Lesotho ac yn casglu gwybodaeth am nodweddion megis poblogaeth, galwedigaethau a ffyrdd o fyw. Gallant gymharu a chyferbynnu'r nodweddion gyda Chymru. Ffocysant yn effeithiol ar leoliad arbennig yn Lesotho er mwyn cymharu a chyferbynnu ardal yn fwy tebyg o ran maint i'w hardal hwythau.

Diffygion

203. Nid oes diffygion pwysig.

Cerddoriaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

204. Yn CA1, mae'r disgyblion yn canu amrywiaeth o ganeuon yn swynol gan ynganu'n glir a chydag ymwybyddiaeth gynyddol o'r traw cywir. Wrth ganu cân werin, er enghraifft, deallant fod y gân yn dweud stori. Maent yn dehongli'r stori a chyflwyno'r cymeriadau yn effeithiol iawn. Mae disgyblion CA2 yn canu gyda rheolaeth dda ar anadlu, ynganiad, brawddegu a thraw.

205. Mae disgyblion B1 yn adnabod a disgrifio synau yn y dosbarth yn gywir. Maent hefyd yn medru archwilio ac arbrofi gwahanol ffyrdd o gynhyrchu seiniau. Defnyddiant dermau cywir, megis cryf a thawel, i ddisgrifio'r synau. Maent yn gyfarwydd â nifer o offerynnau di-draw ac yn deall eu bod yn cael eu chwarae gyda symudiadau gwahanol.

206. Dengys disgyblion B2 wybodaeth dda o elfennau cerddoriaeth wrth gyfansoddi i ysgogiadau megis lluniau neu storïau. Cyfansoddant ddilyniannau diddorol yn fyrfyfyr. Gallant greu sgôr graffig syml, dewis offerynnau a'u defnyddio yn effeithiol i berfformio eu gwaith. Gwerthusant a chynigiant sylwadau synhwyrol am eu cyfansoddiadau a'u perfformiadau.

207. Wrth siarad am gerddoriaeth, defnyddiant dermau cerddorol gyda dealltwriaeth dda. Mae disgyblion B2, er enghraifft, yn dethol termau cerddorol cywir i ddisgrifio symudiadau anifeiliaid gwahanol. Mae'r gwaith gorau o safon uchel ac yn nodwedd ragorol. Trwy ystod o weithgareddau, gall disgyblion B2 guro ac ailadrodd rhythm yn dda.

208. Mae disgyblion B2 a B3 yn gwrando ar gerddoriaeth wahanol, gan gynnwys cerddoriaeth o'r ysgol, Cymru ac Affrica. Gwnânt sylwadau perthnasol ar yr hyn a glywant, gan ddynodi ystod dda o nodweddion ac elfennau yn y gwaith. Mae gan y mwyafrif wybodaeth dda am offerynnau'r gerddorfa ac maent yn gyfarwydd â gwaith rhai cyfansoddwyr enwog.

209. Yn CA2, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol i gyfansoddi dilyniannau diddorol fel ymateb i wahanol ysgogiadau, megis cyflwyno agweddau ar amser. Defnyddiant rythmau gwahanol yn hyderus. Maent yn archwilio'r ystod lawn o ffynonellau i gynnwys synau corfforol a lleisiol, ac offerynnol. Maent yn cyfuno'r rhain i gynhyrchu gweadau effeithiol. Mae'r mwyafrif yn deall beth yw'r raddfa bentatonig ac ystyr ostinato. Mae eu defnydd o derminoleg cerdd yn datblygu'n dda.

210. Yn CA2, mae mwyafrif y disgyblion yn medru datblygu a mireinio syniadau cerddorol, a gwerthuso'u gwaith yn effeithiol er mwyn gwella.

Diffygion

211. Nid oes diffygion pwysig.

Addysg gorfforol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

212. Yn ystod yr arolygiad, arsylwyd ar wersi dawns yn B1, gymnasteg yn B2/3 a gwers athletau yn CA2. Mae cynllunio'r ysgol yn dangos fod y disgyblion yn cael profiad o holl elfennau rhaglenni astudio Addysg Gorfforol.

Nodweddion da

213. Ar lefelau priodol, mae disgyblion yn CA1 a CA2 yn arddangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd sesiynau cynhesu ac ymlacio'r corff ar gyfer eu calonnau a'u cyhyrau ac maent yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r gweithgareddau hyn.

214. Dengys y mwyafrif o ddisgyblion ar draws CA1 ymwybyddiaeth dda o ofod a rheolaeth briodol ar eu cyrff wrth ddatblygu eu sgiliau. Mae disgyblion ar ben isaf y cyfnod allweddol yn ysgafn ar eu traed. Mewn ymateb i symbyliadau penodol,

arddangosant sgiliau creadigol da wrth symud a chreu gwahanol siapiau, gan bwyso ar wahanol rannau o'u cyrff.

215. Yn eu gwersi gymnasteg, defnyddia mwyafrif o ddisgyblion B2 a B3 offer llawr yn effeithiol. Maent yn symud yn dda ar draws a thros y cyfarpar mewn gwahanol ffyrdd. Dengys y mwyafrif reolaeth dda a thechnegau priodol wrth gwblhau eu symudiadau, gan gynnwys glanio mewn ffyrdd effeithiol.

216. Dengys y mwyafrif o ddisgyblion B4, B5 a B6 sgiliau athletau da wrth ganolbwyntio ar gylched o weithgareddau athletau, gan gynnwys rhai yn ymwneud â rhedeg yn gyflym a neidio dros wrthrych.

217. Mae sgiliau'r mwyafrif o ddisgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol wrth werthuso eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eraill, gan gynnig syniadau er mwyn gwella safon eu gweithgareddau, yn datblygu'n dda.

218. Ceir tystiolaeth bod y disgyblion yn ymestyn eu medrau drwy gymryd rhan yn llwyddiannus mewn chwaraeon, clybiau a chystadlaethau ardal.

Diffygion

219. Nid oes diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Hoffai'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r staff ddiolch i'r arolygwyr am gynnal yr arolygiad mewn dull mor broffesiynol a chwrtais. Mae'r ysgol yn falch fod y tîm arolygu wedi dynodi cynifer o nodweddion da.

Mae'r adroddiad yn cydnabod arweinyddiaeth effeithiol, y cydweithrediad cryf rhwng y staff ymroddedig, ac ansawdd rhagorol y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion. Rydym yn gwerthfawrogi fod yr adroddiad yn amlygu ethos gofalgar yr ysgol, y berthynas waith arbennig sydd rhwng y staff a'r disgyblion, ac ymddygiad rhagorol ein disgyblion.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth a roddir i'r bartneriaeth ragorol rhwng yr ysgol, y rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill, gan gynnwys rhai o fewn Ewrop. Cafodd gwaith a dealltwriaeth y disgyblion tuag at godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang hefyd ei glodfori.

Roedd yn galonogol derbyn adroddiad oedd yn cydweddu canfyddiadau hunan arfarniad yr ysgol ac o ganlyniad yn darparu cyfarwyddyd ar gyfer datblygiad i'r dyfodol.

Mae llwyddiant yr ysgol yn ganlyniad i waith caled parhaus yr holl staff addysgu a chefnogi, gyda chefnogaeth oddi wrth y llywodraethwyr, rhieni ac ymdrechion yr holl ddisgyblion.

Byddwn, trwy gydweithrediad y staff a'r llywodraethwyr, yn cynhyrchu cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Cefneithin
Math o ysgol	Cyfnod Sylfaen/Cynradd
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Y Parc Cefneithin Llanelli
Cod post	SA14 7DE
Rhif ffôn	01269842061

Pennaeth	Mrs G Taylor
Dyddiad penodi	Mehefin 2003
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mrs J Davies
Arolygydd cofrestredig	Miss D Morris
Dyddiadau'r arolygiad	27-29 Ebrill, 2009

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion		16	4	12	6	10	5	6	59

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	3	3	3.8

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	15.5:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	-
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	19.6:1
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.26:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2008	-	93.26%	95.33%
Hydref 2008	-	87.12%	90.13%
Gwanwyn 2009	-	91.72%	94.75%

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	12%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	1

Atodiad 3

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2009	Nifer y disgyblion yn B2	7
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	57.1%	Yng Nghymru	80.7%

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008	Nifer y disgyblion yn B6	7
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	85.7%	Yng Nghymru	75.5%

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pedwar arolygydd, gan gynnwys enwebai'r ysgol, cyfwerth â chwe diwrnod arolygu yn yr ysgol a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- 17 gwers, yn ogystal â rhannau o sesiynau dysgu;
- sesiynau cofrestru, gwasanaethau ac addoli ar y cyd, ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd â:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- uwch reolwyr, athrawon, a staff cymorth;
- cyngor yr ysgol, a
- chynrychiolwyr mudiadau sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

Roedd y tîm hefyd wedi ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 14 ymateb i'r holiadur i rieni;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;

- amrediad eang o waith blaenorol a phresennol disgyblion, a
- samplau o adroddiadau disgyblion.

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y tîm gyfarfodydd gyda'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Miss Dorothy Morris Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion, Atodiadau Cwestiynau Allweddol 1, 2a, 4 a 5 Mathemateg, dylunio a thechnoleg, cerddoriaeth
Mr Brinley Jones Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 2b, 3, 6 a 7 Cymraeg, daearyddiaeth, addysg gorfforol
Mr Gwynoro Jones Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau at gwestiynau allweddol 1, 2, 3, 4 a 7
Mrs Gillian Taylor Pennaeth/Enwebai	Mynychu cyfarfodydd a darparu gwybodaeth

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad parod trwy gydol yr arolygiad.

Contractwr: EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît H
Tŷ Britannic
Llandarsi
Castell-nedd SA10 6JQ